# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

*Personau sy'n rhedeg busnes tirlenwi yn newid*

### 87 Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i sicrhau dilyniant wrth gymhwyso unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth pan drosglwyddir busnes tirlenwi o un person i un arall fel busnes gweithredol.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu am y trosglwyddiad;

(b) i unrhyw rwymedigaeth neu ddyletswydd ar ran y trosglwyddwr mewn perthynas â'r dreth ddod yn rhwymedigaeth neu'n ddyletswydd i'r trosglwyddai;

(c) i unrhyw hawlogaeth ar ran y trosglwyddwr i ollwng neu ad-dalu swm o dreth, pa un a yw'n codi cyn y trosglwyddiad neu ar ei ôl, ddod yn hawlogaeth i'r trosglwyddai;

(d) i unrhyw beth a wnaed cyn y trosglwyddiad gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas â'r trosglwyddwr gael ei drin at ddibenion y dreth fel pe bai wedi ei wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas â'r trosglwyddai;

(e) ynglŷn â dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gymwys yn ddarostyngedig i amodau, ac yn benodol cânt—

(a) darparu ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth ACC cyn cymhwyso unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (2)(b) i (e) i drosglwyddwr a throsglwyddai;

(b) gwneud darpariaeth ynglŷn â gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth a phenderfynu arnynt.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer—

(a) cosbau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau;

(b) adolygiadau ac apelau.

(5) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 87 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 87 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 87.